Ysgol Penrhyn-coch

Aeth hanner tymor heibio, ac yn wir hanner tymor oer iawn ydoedd. Er hynny, bu'r presenoldeb yn hynod o dda ac erbyn hyn mae Mrs M.G.Marshall yn ôl wrth ei gwaith yn y gegin ac yn teimlo'n llawer iawn gwell. Mae Mrs J.A.Thomas yn ymddeol o'i gwaith fel goruchwyliwr y plant ganol dydd. Blin gennym ei cholli, ond dymunwn y gorau posibl iddi.

Mae Elen Phillips wedi ffarwelio â ni gan i'w thad, Mr Gwylon Phillips gael ei benodi'n brifathro Ysgol Bwlch-y-groes a'r teulu bach erbyn hyn yn byw yn Llandudoch. Cawsom y cyfle, er hynny o groesawu dau ddisgybl newydd sef Mair Davies, Pant-drain a James Barratt, Glan-ffrwd. Derbyniwyd cerdyn yn ddiweddar oddi wrth Junya Ogawa ag yntau wedi cyrraedd yn ôl yn ddiogel i Siapan.

Erbyn hyn mae'r swm a dderbyniwyd o ganlyniad i Daith Gerdded Noddedig Adran Urdd yr ysgol wedi cyrraedd £235. Diolchwn i bawb am bob cefnogaeth.

Oherwydd gerwinder y tywydd ni chafwyd ond un gem pêl-droed y tymor yma a hynny'n erbyn Ysgol Gymraeg, Aberystwyth. Balch oedd tim y Penrhyn o gael dychwelyd yn goncwerwyr y tro yma.

Ychydig amser yn ôl bu Mrs M.Gregory mor anffodus â thorri ei choes. Dymunwn adferiad buan iddi. Yr un pryd croesawn Mrs Eira Williams yma dros dro.

Edrychwn ymlaen at groesawu henoed y cylch i barti blynyddol yr Urdd ddiwedd y mis a'r Llun cyntaf ym Mawrth gobeithiwn y bydd y rhieni a'r plant yn y Noson Gawl Cennin i ddathlu Gŵyl Ddewi. Trefnodd Cymdeithas Athrawon-Rhieni'r ysgol Noson Gymdeithasol ar y 9fed.o Fawrth hefyd a gobeithio y bydd nifer yn bresennol yno.